



## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI156

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Cynhyrchiad Fideo o Adroddiad Blynyddol 2019/2020: Cytundeb Wedi'i Wobrwyo

### Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:

**Crynodeb Gweithredol:** Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh) ddyletswydd statudol i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol; crynodeb o waith CHTh yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau, gwybodaeth ariannol a phenderfyniadau allweddol. Rhaid i'r CHTh gyhoeddi'r Adroddiad, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd. Mae holl Adroddiadau Blynyddol CHTh ar gael fel copïau papur caled ac hefyd i'w lawrlwytho ar ffurf PDF ar ein gwefan.

Ar gyfer Adroddiad 2019-2020, hoffem fabwysiadu ymagwedd wahanol i'r ffordd y mae'n cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Ynghyd â'n fersiwn PDF traddodiadol, hoffem ei gyflwyno fel ffilm: Credwn y bydd yr ymagwedd hon yn denu ac yn annog mwy o bobl i ddarllen Adroddiad Blynyddol CHTh.

Fodd bynnag, nid oes gennym yr arbenigedd yn fewnol i ddatblygu'r ymagwedd hon. Gan hynny, ceisiwyd cymeradwyaeth i ddod â chwmni cynhyrchu fideo allanol i mewn i weithio gyda ni er mwyn cynhyrchu fersiwn fideo o'r adroddiad.

Ers hynny, rydyn ni wedi bod allan i dendr ar gyfer y prosiect hwn, a derbyniom 12 cais, sy'n gadarnhaol iawn. Aeth y ceisiadau drwy'r broses gaffael drylwyr, a Geek Media Cyf gafodd y sgôr uchaf. Gan hynny, ceisir cymeradwyaeth i gynnig y cytundeb i'r cwmni a chychwyn gweithio gyda'r tîm cyn gynted â phosibl.

### Argymhelliad:

I gynnig y cytundeb i Geek Media Ltd, ac i gychwyn gweithio ar Gynhyrchiad Fideo o Adroddiad Blynyddol 2019/2020 cyn gynted â phosibl.

### Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

17/1/2020